Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cludiant Lleol Cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19: Adroddiad cryno ymgysylltu ‘monitro’ cymunedol

Cynnwys

Cynnwys 2

Pwrpas yr adroddiad 3

Cefndir y cynllun arfaethedig 3

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun 3

Rhestr o fudd-ddeiliaid 4

Crynodeb o’r gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd hyd yn hyn 4

Crynodeb o’r arolwg preswylwyr/ymwelwyr 5

Crynodeb o’r arolwg busnes 1

Ffynonellau a Darllen Pellach 2

Atodiad 1 – adroddiad data ymgysylltu manwl ar gyfer Rhuthun.....2

Pwrpas yr adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi canlyniadau’r arolwg 'monitro cymunedol’ mewn perthynas â *Local Sustainable Transport response to Covid-19* for Ruthin y Cyngor.

Cefndir y cynllun arfaethedig

Ar 7 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer cyflwyno mesurau trafnidiaeth leol gynaliadwy mewn ymateb i Covid-19 (7 Mai 2020) | LLYW.CYMRU ar gyfer yr hyn a elwir ganddi’n fesurau cludiant lleol cynaliadwy mewn ymateb i Covid-19, gan ddweud “Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol fynegi diddordeb cychwynnol erbyn 21 Mai er mwyn inni gael amcan o faint o gyllid y bydd ei angen. Byddwn yna yn gofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn er mwyn inni gael ystyried mwy ar y cynigion. Rydym yn rhagweld y bydd y mesurau’n cael eu cyflwyno o ddechrau’r haf ymlaen”. Bwriad y cynllun oedd hwyluso mesurau cadw pellter cymdeithasol yng nghanol trefi, ac annog a hyrwyddo teithio llesol yn ystod cyfnod y pandemig.

Mewn ymateb i’r alwad hon am ddatganiadau o ddiddordeb, cyflwynodd Cyngor Sir Ddinbych ddatganiadau o ddiddordeb ynghylch cynlluniau mewn pedair tref, yn cynnwys Rhuthun.

Yn dilyn cais llwyddiannus am yr arian, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ynghylch y cynlluniau ymateb teithio llesol arfaethedig rhwng 9 a 24 Gorffennaf.

Derbyniodd ymgynghoriad Rhuthun 606 ymateb, ac roedd tua 81% yn gyffredinol gefnogol i’r cynlluniau.

Yn niwedd mis Hydref 2020, cwblhawyd y gwaith o sefydlu’r cynllun dros dro, ac ar 12 Tachwedd, lansiwyd arolwg ‘monitro’.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun

Daeth y cynllun dros dro i ben yng nghanol mis Chwefror 2021.

Rhestr o fudd-ddeiliaid

Mae'r rhestr o fudd-ddeiliaid y mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â nhw yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cynghorwyr Sir Rhuthun
- Cyngor Tref Rhuthun
- Cymuned fusnes ehangach Rhuthun
- Cymuned breswyl Rhuthun

Crynodeb o'r gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd hyd yn hyn

Hyd yma, mae'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori canlynol wedi'i gynnal:

Dyddiad	Crynodeb o'r gweithgarwch	Y budd-ddeiliaid cysylltiedig
19 Mehefin 2020	Cyfarfod cyntaf gweithgor 'Adfer Canol y Dref'	Gweithgor swyddogion mewnol (y Cyngor) yn bennaf
21 Mehefin 2020	Lansio arolygon barn cyhoeddus ar-lein i breswylwyr a busnesau, gyda golwg arbennig ar bryderon ynghylch Porthol Sgwrs y Sir Ddinbych | Denbighshire County Conversation Portal	Busnesau yn y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Llangollen a Chorwen Ymwelwyr (lleol a heb fod yn lleol) â chanol trefi'r llefydd a enwir uchod
9 Gorffennaf 2020	Lansio Porthol Sgwrs y Sir Ddinbych | Denbighshire County Conversation Portal ar gyfer cynigion Cludiant Lleol Cynaliadwy dros dro.	Cynghorwyr Sir Rhuthun, Cyngor y Dref, a chymuned fusnes a phreswyl ehangach Rhuthun
12 Tachwedd 2020	Lansio Porthol Sgwrs y Sir Ddinbych | Denbighshire County Conversation Portal ar gyfer cynllun Cludiant Lleol Cynaliadwy yn Rhuthun	Ymatebwyr yr ymgynghoriadau blaenorol ym mis Gorffennaf, aelodau *Y Panel* (panel dinasyddion ar-lein), aelodau sawl grŵp Facebook sydd wedi'u lleoli yn Rhuthun, cymuned ehangach Rhuthun (drwy wefan y Cyngor a'r wasg brint)

Crynodeb o'r arolwg preswylwyr/ymwelwyr

Ymatebodd 189 o bobl i'r arolwg preswylwyr/ymwelwyr. Mae maint y sampl yn llai nag yn ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020 (tua 34% o gyfanswm mis Gorffennaf). Dylid ystyried efallai nad oedd rhai o'r ymatebwyr yn ddigon bodlon neu'n ddigon anfodlon ar y cynllun dros dro i fod eisiau cynnig sylwadau arno.

Cafodd yr ymatebion a dderbyniwyd eu croesgyfeirio yn erbyn ymgynghoriad Gorffennaf 2020 fel y gellir mapio'r newidiadau yn y teimladau cyffredinol dros amser. Byddai angen i unrhyw arolygon dilynol ganiatáu i feincnodi tebyg ddigwydd.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol i'r rhan fwyaf o amcanion neu elfennau'r cynllun, yn cynnwys:

- Mae lledu palmentydd wedi gwneud cadw pellter cymdeithasol yn haws, yn ôl 63.16% o ymatebwyr
- Mae cefnogi caffis, tafarndai a bwytai i gyflwyno llefydd eistedd y tu allan wedi gwneud i'r dref deimlo'n fwy croesawgar, yn ôl 43.86% o ymatebwyr
- Roedd cyflwyno system unffordd er mwyn gweithredu'r mesurau eraill yn benderfyniad derbyniol, yn ôl 53.25% o ymatebwyr
- Roedd 58.37% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn mynd i'r dref mewn ffyrdd mwy diogel, neu'n teimlo'n fwy diogel wrth fynd i'r dref yn yr un ffyrdd

Roedd rhai preswylwyr yn teimlo nad oedd amcanion neu elfennau eraill y cynllun yn gweithio'n dda:

- Nid oedd y cynllun wedi annog mwy o bobl i gerdded neu feicio, yn ôl 50.29% o ymatebwyr
- Roedd 46.47% o ymatebwyr yn teimlo nad oedd y cynllun yn gweithio'n dda ar y cyfan, o gymharu â 38.82% o ymatebwyr oedd yn teimlo ei fod yn gweithio'n dda, a 14.7% o ymatebwyr oedd yn teimlo'i bod yn rhy gynnar i ddweud.

Pwynt i’w nodi: o ran y cwestiwn ‘diwylliant caffis’, roedd y ganran fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod cyflwyno llefydd eistedd y tu allan wedi gwneud i’r dref edrych yn fwy croesawgar – fodd bynnag, mae Cymru wedi bod mewn cyfnod clo cenedlaethol am y rhan fwyaf o’r cyfnod casglu data, ac nid yw’r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw fusnesau lletygarwch neu fusnesau tebyg a lwyddodd i weithredu'r mesurau hyn, a manteisio arnynt, cyn gorfod cau er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

Sylwadau’r arolwg preswylwyr/ymwelwyr

Penderfynodd tua 40% o’r ymatebwyr a roddodd sylwadau pellach i egluro’u hymatebion ‘aml-ddewis’ roi sylwadau oedd yn cwmpasu mwy nag un o’r categorïau cyffredinol canlynol:

- Sylwadau cadarnhaol, a lle nodwyd ymhellach, elfennau unigol y cynllun
- Sylwadau negyddol, a lle nodwyd ymhellach, elfennau unigol y cynllun
- Sylwadau/awgrymiadau niwtral, a lle nodwyd ymhellach, manylion.

Gan mwyaf, roedd y cyfuniadau o sylwadau naill ai’n ddatganiadau cadarnhaol yn gymysg â sylwadau/awgrymiadau niwtral, neu’n ddatganiadau negyddol yn gymysg â sylwadau/awgrymiadau niwtral. Ni roddodd rhai ymatebwyr sylwadau y gellid eu rhoi yn y tri chategori.

Ar y cyfan, roedd y sylwadau’n mapio’r atebion ‘ticio bocsys’ yn fras, gyda’r gefnogaeth fwyaf i: deithio llesol yn gyffredinol; y system unffordd; a lledu'r palmentydd i greu mwy o ofod i gerddwyr – yn enwedig rhieni/gofalwyr plant ifainc.

Y pryderon mwyaf ynghylch y cynllun oedd: estheteg y cynllun dros dro (sut yr oedd yn edrych); pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd – yn benodol, y strydoedd unffordd lle mae’r lôn gerbydau wedi'i lledu ar gyfer cerbydau, ond hefyd ar y Sgwâr, a soniodd sawl ymatebydd fod cerbydau wedi’u gweld yn osgoi’r gylchfan; a phryderon am effaith y cynllun ar fasnachwyr; a phryder cyffredinol am yr anhwylustod a’r effaith ar fasnachwyr ar y llwybrau unffordd.

Roedd y sylwadau neu’r awgrymiadau nad oeddent yn gadarnhaol nac yn negyddol (neu nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â’r cynllun) yn cynnwys: awgrymiadau am fesurau teithio llesol / diogelwch ar y ffyrdd eraill yn yr ardaloedd lle mae’r cynllun dros dro wedi’i sefydlu – megis terfyn cyflymder is, neu dwmpathau; awgrymiadau am fesurau teithio llesol / diogelwch ar y ffyrdd eraill o amgylch y dref ac yn yr ardaloedd gwledig cyfagos; ac awgrym ei bod yn rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y cynllun dros dro hyd yma.

Crynodeb o’r arolwg busnes

Cafwyd 22 ymateb i’r arolwg busnes. Nid oedd arolwg gwahanol i fusnesau’n rhan o ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020, ond gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg hwn a oeddent wedi ymateb i ymgynghoriad mis Gorffennaf.

SYLWER: gan fod nifer yr ymatebion yn fychan, ni ddylid ystyried bod y sylwadau a'r safbwyntiau a fynegir isod yn gynrychioliadol o gymuned fusnes Rhuthun yn ei chyfanrwydd. Mae nifer o fusnesau wedi methu masnachu am y rhan fwyaf o’r cyfnod casglu data, a chanslwyd gweithgareddau ymgysylltu gyda nhw (llythyrau wedi’u dosbarthu â llaw, a chyfle i gael sgwrs am y cynllun gydag un o swyddogion y Cyngor) oherwydd y cyfnod clo a’r cyngor y dylid aros gartref os oedd hynny’n bosibl. Bydd angen trefnu i’r Post Brenhinol ddosbarthu’r llythyrau er mwyn ymgysylltu yng nghyswllt y cynllun dros dro hwn, hyd nes y rhoddir gwybod yn wahanol.

Nid atebwyd yr holl gwestiynau gan bob un o’r 22 ymatebydd. Ar y cyfan:

- Roedd 11 ymatebydd (64.71%) yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf fod lledu palmentydd wedi gwneud cadw pellter cymdeithasol yn haws, ac roedd 6 ymatebydd (35.29%) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf
- Roedd 3 ymatebydd (50%) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf fod y mesurau dros dro wedi arwain at gynnydd mewn teithio llesol, ac roedd 3 ymatebydd (50%) yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf
- Roedd 11 ymatebydd (64.71%) yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf fod caniatáu i rai busnesau gyflwyno llefydd i eistedd y tu allan yn gwneud i ganol Rhuthun deimlo’n fwy croesawgar, roedd 5 ymatebydd (29.41%) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf, ac roedd 1 ymatebydd (5.89%) yn teimlo’i bod yn rhy gynnar i ddweud
- Roedd 12 ymatebydd (70.59%) yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf â chyflwyno system unffordd er mwyn gweithredu’r mesurau, ac roedd 5 ymatebydd (29.41%) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf
- Roedd 12 ymatebydd (70.59%) yn teimlo bod y cynllun wedi cael effaith negyddol ar eu busnes ac ar Ruthun yn gyffredinol; roedd 4 ymatebydd (23.53%) yn teimlo bod y cynllun wedi cael effaith gadarnhaol ar eu busnes ac ar Ruthun yn

gyffredinol; ac roedd 1 ymatebydd (5.88%) yn teimlo nad oedd y cynllun wedi gwneud unrhyw wahaniaeth.

O ran sylwadau cefnogol: Roedd 2 ymatebydd (15.38%) yn gefnogol yn gyffredinol i’r cynllun dros dro

O ran sylwadau negyddol: Roedd wyth sylw’n pryderu am faterion diogelwch ar y ffyrdd (e.e. croesi’n ddiogel, rhwystrau mewn lonydd cerbydau), roedd chwe sylw’n pryderu am estheteg y cynllun. Derbyniwyd yr holl sylwadau eraill gan ymatebwyr unigol.

Ffynonellau a Darllen Pellach

Atodiad 1 – adroddiad data ymgysylltu manwl ar gyfer Rhuthun